

**Cyngor Cymuned Llanpumsaint**  
**Nodiadau Cyfarfod:04.04.2017**  
**Neuadd Goffa 8.00 y.h**

**Presennol: Y Cynghorwyr ;Mike Poston, Dylan Jones, Pamela Jones, Carolyn Smethurst, Arwel Nicholas, Elfed Davies, Danny Davies, Wyn Thomas, Cynghorydd Sir, Irfon Jones**  
**Ymddiheuriadau: Neb**

<b>Rhif Agenda</b>	<b>Nodiadau/ Penderfyniadau</b>	<b>I'w weithredu gan</b>
Datgan Buddiannau	Neb	
Cofnodion	Cafwyd yn gywir gan ED & DJ	
Materion yn Codi	<p><b>Mesur Lleoliaeth</b> – MP yn rhoi diweddariad a dweud fod y Mesur yn weithredol yng Nghymru a Lloegr</p> <p><b>Cyffordd Cŵpers</b> – nid oes cyfarfod wedi ei drefnu gyda J McEvoy eto I drafod gwneud newidiadau l'r safle bws ac yn y blaen</p> <p><b>Skanda Vale</b> – AN yn holi a oes datblygiadau wedi bod ynglyn a chael rheolaeth well ar drafnidiaeth? Y Clerc wedi cysylltu gyda Cynthia Ryder a hithau wedi derbyn gwybodaeth oddi wrth y Deml oedd yn dweud eu bod wedi creu cynllun rheolaeth trafndiaeth.</p> <p><b>IJ</b> yn adrodd bod trigolion Panteg a Gwarcwm wedi holi am y posibiladau o ymestyn cyfyngiadau cyflymdra tu hwnt I Banteg ac efallai ei ostwng o 40 I 30 milltir yr awr. I'w drafod gyda J McEvoy</p> <p><b>Band Eang</b> – CS heb gael mwy o wybodaeth am pa bryd y daw Band Eang l'r pentre</p> <p><b>Etholiad</b> – WT wedi cysylltu gyda Swyddfa Etholiadau ac wedi deall mae 6 Cynghorydd sydd wedi ceisio am seddau; WT a CS ddim am gynnig eto</p>	
Gohebiaeth	Dim sylwadau	
Cynllunio	Pantyffordd; mân newidiau l'r cynllun gwreiddiol – dim gwrthwynebiad	
Materion Ariannol	Cyfieithu, Trywydd - £64.50; DD & WT Cyflog y Clerc- £130.60. DJ & PJ	
	<p><b><u>Paul Thomas – Gweithredu Ynni Lleol</u></b>  PT wedi bod yn gweithio gyda G.Y LI ers 18 mis ac yn cynorthwyo cymunedau I arbed cosatu ynni. O'i brofiad, gellir gostwng cost ynni tua 10% wrth brynu drwy Clwb Ynni. Dyfynnwyd enghreifftiau o lle mae'r cynllun yn gweithio'n dda, I gymunedau ac I Gyngorau sydd yn talu am danwydd I Neuaddau ayyb. Gobeithir estyn y rhaglen yn y dyfodol I</p>	

	<p>gynnwys Band Eang. Os fyddde gyda'r gymuned ddiddordeb yn y cynllun, fyddde PT yn cynnig ei wasanaeth am ddim.</p> <p><b>Clerc-</b> a fyddde angen llinell ffôn l'r Neuadd er mwyn hwyluso cynnal Clwb fyddde'n cynorthwyo unigolion sydd heb gyfrifiaduron, a chynnal gwersi cyfrifiaduriaeth? <b>CS</b> yn dweud ei bod hi wedi llwyddo l gysylltu gyda EE/Orange yn y Neuadd wrth ddefnyddio Dongle.</p> <p><b>CS</b> – a fyddde'r Clwb Tanwydd yn cynnwys Nwy (LPG)? PT yn dweud nad oes llawer o ddewis o gyflenwyr nwy yng Nghymru ac iddo fod yn anoddach l drafod prisiau. Mae yna un cyflenwr Cymreig sef; 'Gas for Wales' (Centras) sydd wedi ei leoli yng Ngarnant.</p> <p><b>AN</b> – beth fyddde angen l'r gymuned ei neud er mwyn cychwyn Clwb o'r fath? PT yn ateb wrth ddweud fyddde rhaid trefnu cyfarfodydd megis 'Drop-In' yn rheolaedd.</p> <p><b>ED</b> – Yn fodlon ystyried y syniad</p> <p><b>MP</b> – Beth y'w farn ar Smart Meters? PT yn dweud fod y 'standing charge' yn codi er mwyn talu am gost y meter newydd a CS yn dweud ei fod yn anoddach newid cyflenwyr gyda'r Smart Meters presennol ond efallai fydd yr ail genhedlaeth o meters yn well.</p> <p>Clerc l drafod materion gyda Derick Lock</p>	
UFA	<p><b>PJ</b> – Dim</p> <p><b>MP</b> – Dim</p> <p><b>CS</b> – Cyflwr difrifol ar heol y Bryn; Clerc l gysylltu gyda Priffyrdd</p> <p><b>WT</b> – yn ymddeol fel Cynghorydd l'r Gymuned ar ôl 43 mlynedd. Wedi mwynhau gweithio gyda'r Cyngor ac wedi dysgu llawer; o fudd iddo wrth ymuno gyda Cyngor Tref Caerfyrddin.</p> <p><b>IJ</b> – Dim</p> <p><b>ED</b> – Dim</p> <p><b>DJ</b> – Cyflwr Rhiw Graig; Clerc l gysylltu gyda Priffyrdd</p> <p><b>DD</b> – Wedi prynu byrddau addas ar gyfer y Blychau BT</p> <p><b>AN</b> – Yn cynnig trefnu pryd bwyd l gofio am cyfraniad WT a <b>CS</b> l Gyngor y Gymuned ar 02.05.2017. Pawb yn gytun. Clerc l wneud y trefniadau.</p> <p>Cyfarfod yn gorffen am 9.10</p>	

<p>Cafwyd yn gywir : .....</p> <p>(Cadeirydd)</p> <p>Dyddiad : .....</p>	<p>Cafwyd yn gywir : .....</p> <p>(Ysgrifennydd)</p> <p>Dyddiad: .....</p>
--	--